



# Archwilio digwyddiadau tywydd y gorffennol

**1** Yn y gweithgaredd hwn, bydd pobl ifanc yn creu astudiaeth achos am ddigwyddiad tywydd yn y gorffennol. Rhannwch y grŵp yn dimau bach, rhwch lechen neu ddyfais symudol arall iddynt a neilltuwch fath o dywydd garw i bob un o'r cyflwyniad (sleid 2). Gofynnwch iddynt ymchwilio ac ysgrifennu astudiaeth achos am ddigwyddiad tywydd yn y gorffennol sy'n cyd-fynd â'r math o dywydd garw a roddwyd iddynt. E.e. Os dyrannwyd llifogydd iddynt, dylai pobl ifanc greu astudiaeth achos o ddigwyddiad llifogydd go iawn.

**2** Mae grwpiau yn gallu defnyddio deunyddiau astudiaethau achos **geir yma** i adnabod studiaeth achos sy'n cydweddu â'u math o dywydd garw a dechrau eu hymchwil. Byddant yn defnyddio'r astudiaeth achos hon yn ddiweddarach i gefnogi cynllun gweithredu ar gyfer digwyddiad tebyg yn y dyfodol

**3** Defnyddiwch yr awgrymiadau canlynol (ar sleid 3) i arwain yr hyn y dylai ymchwil y pobl ifanc ei gynnwys:

- Sut gafodd unigolion a chymunedau eu heffeithio?
- Pwy oedd yn y perygl mwyaf? Pam?
- Beth oedd effeithiau'r digwyddiad tywydd?



20 munud



Gwaith grwp



Sleidiau cyflwyniad yn archwilio digwyddiadau tywydd y gorffennol

- A oedd digwyddiadau yn ymwneud ag anafiadau, salwch, mynd i'r ysbyty?
- A oedd risg o amharu ar seilwaith ynni neu drafnidiaeth?
- Pa ddulliau a ddefnyddiwyd i liniaru'r risgiau gan gynnwys gwybodaeth am y tywydd a rhybuddion?
- Sut ymatebodd y gwasanaethau brys?
- Beth sy'n achosi digwyddiadau fel hyn a pha mor debygol yw hi o ddigwydd eto yn y dyfodol?
- Casgliadau ar yr hyn a wnaed yn dda a'r hyn y gellid bod wedi'i wella o ran sut i baratoi, rheoli a lliniaru risgiau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau tebyg yn y dyfodol

